**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 18,257 | 17,703 | (554) | | (554) | (676) |
| Gofal Cartref | 7,978 | 7,789 | (189) | | (189) | 366 |
| Eraill | 294 | 1,550 | 1,256 | | 1,256 | 739 |
| | 26,529 | 27,042 | 513 | 0 | 513 | 429 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,794 | 2,284 | (510) | | (510) | (125) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 23,893 | 24,108 | 215 | | 215 | 284 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 4,141 | 4,399 | 258 | | 258 | 443 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,784 | 3,743 | (41) | | (41) | (108) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **61,141** | **61,576** | **435** | **0** | **435** | **923** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 0 | 122 | 122 | | 122 | (399) |
| Gofal Dydd | 0 | (165) | (165) | | (165) | (135) |
| Gofal Cymunedol | 0 | 1,550 | 1,550 | | 1,550 | 950 |
| Eraill | 0 | 35 | 35 | | 35 | (10) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **0** | **1,542** | **1,542** | **0** | **1,542** | **406** |

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,224 | 3,564 | 340 | 0 | 340 | 370 |
| Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19 | 59 | 59 | 0 | | 0 | 164 |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | | (397) | (397) | | (397) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,283** | **3,226** | **(57)** | **0** | **(57)** | **(1,398)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **64,424** | **66,344** | **1,920** | **0** | **1,920** | **(69)** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - Yn 'Eraill' cynnydd yn y pwysau ar lety cefnogol ac yn nifer y pecynnau taliadau uniongyrchol, ond fod llai o bwysau ar breswyl a nyrsio a gofal cartref. Trafferthion gwireddu arbedion hefyd yn cyfrannu at y darlun.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - achosion newydd i'r maes a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan lai o gynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y tueddiad o bwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio yn parhau gyda achosion newydd costus.

**Gwasanaethau Darparu** - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn gofal cymunedol. Tra fod prisiau cynyddol trydan wedi arwain at orwariant gan gartrefi preswyl. Effaith Covid yn parhau i amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - arbedion gwerth £545k yn parhau heb eu gwireddu ond trosiant staff yn lleihau'r effaith.

**Cyllideb 2022/23** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £3.4 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2022/23 gan gynnwys i'r maes Preswyl a Nyrsio, Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £930k yn parhau heb eu gwireddu.

Mae'r adran wedi defnyddio £397k o'u cronfa tanwariant i leihau'r gorwariant a adroddir i £1.9 miliwn.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni nodir bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd gorwariant yr Adran, fel bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 605 | 562 | (43) | | (43) | (53) |
| Gweithredol | 2,462 | 2,608 | 146 | | 146 | 57 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,064 | 4,729 | (335) | | (335) | 342 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,696 | 1,680 | (16) | | (16) | (129) |
| Maethu Mewnol | 2,613 | 2,513 | (100) | | (100) | (32) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,772 | 1,889 | 117 | | 117 | (14) |
| | 11,145 | 10,811 | (334) | 0 | (334) | 167 |
| Ôl-16 | 1,358 | 1,553 | 195 | | 195 | 24 |
| Arbenigol/Derwen | 2,265 | 2,592 | 327 | | 327 | 162 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 266 | 227 | (39) | | (39) | (51) |
| Blynyddoedd Cynnar | 140 | 119 | (21) | | (21) | (74) |
| Ieuenctid | 919 | 711 | (208) | | (208) | (247) |
| Eraill | 2,126 | 2,191 | 65 | | 65 | (82) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **21,286** | **21,374** | **88** | **0** | **88** | **(97)** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - gwariant yn uwch gan fod y niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth cynlluniau cefnogol yn uwch ac felly yn cael oblygiadau ar gostau eraill gan gynnwys teithio.

**Lleoliadau** - lleihad yn y nifer cyfartalog Lleoliadau All-Sirol eleni sef 23 i gymharu gyda 23.25 ar gyfer 2021/22. Er bod y nifer cyfartalog yn Maethu drwy Asiant yn 34.5 ar ddiwedd Awst i gymharu â 31 yn 2021/22, rhagwelir y bydd y gost o fewn y gyllideb. Yn Maethu Mewnol, cyfuniad o dderbyniad bidiau parhaol ac incwm gan y Swyddfa Gartref yn golygu fod tanwariant o (£100k) yn cael ei ragweld. Yn Gwasanaethau Cefnogol Eraill cyflogau uwchlaw'r sefydliad yn y Tim Lleoliadau a chostau uwch y Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gyfrifol am y gorwariant.

**Ôl-16** - cynnydd yn y pwysau ar y gwasanaeth gyda 5 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gwerth £100k yr un y flwyddyn.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grant yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

**Eraill** - costau cyflogi a chostau uwch am wasanaethau.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 85,493 | 87,001 | 0 | | 0 | 0 |
| Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Trydan | | | 1,508 | | 1,508 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,046) | (1,161) | (115) | | (115) | (345) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 6,017 | 6,228 | 211 | | 211 | 106 |
| Gwasanaeth Atodol | 738 | 778 | 40 | | 40 | 423 |
| Eraill | 3,158 | 3,065 | (93) | | (93) | (87) |
| | 9,913 | 10,071 | 158 | 0 | 158 | 442 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,469 | 2,241 | (228) | | (228) | (129) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,214 | 5,203 | (11) | | (11) | (28) |
| **Cyfanswm Addysg** | **102,043** | **103,355** | **1,312** | **0** | **1,312** | **(60)** |

## Addysg

**Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Trydan** - am y chwech mis o Hydref 2022 ymlaen effaith prisiau trydan uwch ar yr ysgolion. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion -** derbyniad grant, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

**Cludiant** - er fod £146k o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes tacsis a threnau ysgolion yn 2021/22 a £150k pellach yn 2022/23, gorwariant o £208k yn cael ei ragweld eleni. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd yn y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynllun Llywodraeth Cymru i gyllido cinio am ddim i blant derbyn a Blwyddyn 1 o Fedi 2022 a Blwyddyn 2 o Ionawr 2023, yn golygu nad yw'r tueddiad diffyg incwm a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar ginio ysgol yn amlwg eleni. Cynnydd mewn prisiau bwyd, diffyg incwm a chostau staff uwch i'w gweld ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Swyddi gwag a llai o bwysau ar gyllidebau eraill yn lleihau lefel y gorwariant.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £217k.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Addysg o ganlyniad i orwariant ar gostau trydan yn yr ysgolion, **argymhellir** fod y Cabinet yn ystyried os y dylid cyllido'r costau trydan ychwanegol eleni o falansau'r ysgolion unigol.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 383 | 383 | 0 | | 0 | 0 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 1,009 | 1,024 | 15 | | 15 | 66 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 3 | (86) | (89) | | (89) | (189) |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 1,596 | 2,774 | 1,178 | | 1,178 | (12) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | 71 | 71 | 0 | | 0 | 111 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 296 | 301 | 5 | | 5 | 11 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,689 | 1,665 | (24) | | (24) | (77) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 881 | 1,027 | 146 | | 146 | 18 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,928** | **7,159** | **1,231** | **0** | **1,231** | **(72)** |

## Economi a Chymuned

**Morwrol a Pharciau Gwledig -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys rhagori targedau incwm yn y traethau a Hafan, Pwllheli yn dilyn tywydd ffafriol ac felly tymor prysur. Trosiant staff yn yr Harbyrau a Hafan, Pwllheli hefyd yn cynorthwyo'r sefyllfa ond fod costau cynyddol trydan yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Cytundebau Byw'n Iach ac Hamdden Eraill -** trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Cwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhychu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £842k. Costau sylweddol uwch trydan sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant.

**Llyfrgelloedd Gwynedd -** cyfuniad o danwariant ar staff, teithio a chostau swyddfa.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd -** ni ragwelir y bydd y cynllun arbedion gwerth £70k yn Neuadd Dwyfor yn cael ei wireddu eleni gan fod sgil effaith Covid wedi amharu'n negyddol ar lefelau incwm y Neuadd a gan y bydd y Neuadd hefyd ar gau am gyfnod o ddau fis yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer gwaith gwedd 2 ar yr adeilad. Problemau yn Storiel yn parhau gyda diffyg o £49k yn cael ei ragweld am y flwyddyn. Costau cynyddol trydan hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a adroddir.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Economi a Chymuned o ganlyniad i gymorth ariannol gwerth £842k i Gwmni Byw'n Iach ynghyd â chynnydd mewn prisiau trydan.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 10,585 | 10,603 | 18 | | 18 | 267 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 384 | 593 | 209 | | 209 | 23 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 12,215 | 13,366 | 1,151 | | 1,151 | 362 |
| | Eraill | 5,060 | 5,518 | 458 | | 458 | 94 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **28,244** | **30,080** | **1,836** | **0** | **1,836** | **0** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - lleihad yn y gweithiau a gomisiynir gan y prif glientau ynghyd ag oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianneg** - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng, pont Aber ac hefyd pont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is. Costau trydan uwch a thrafferthion i wireddu arbedion yn y maes hefyd yn cyfrannu at lefel y gorwariant a adroddir.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes casglu gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adran bellach wedi derbyn adroddiad allanol gan WRAP Cymru sydd yn cynnig argymhellion ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth yma. Bydd yr adroddiad yn derbyn ystyriaeth reolaethol gan yr Adran.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys cynlluniau arbedion yn parhau heb eu darganfod a cholledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd, glanhau toiledau cyhoeddus, gwastraff masnachol ac hefyd costau cynyddol trydan yn amlwg. Rhagwelir incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni nodi fod y Prif Weithredwr am alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd gorwariant yr Adran, fel bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 836 | 863 | 27 | | 27 | 20 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 586 | 491 | (95) | | (95) | (41) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 309 | (68) | (377) | | (377) | (481) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,830) | (1,484) | 346 | | 346 | 190 |
| Cludiant Integredig | 1,803 | 2,070 | 267 | | 267 | 195 |
| | 282 | 518 | 236 | 0 | 236 | (96) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 765 | 761 | (4) | | (4) | 29 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,799 | 1,622 | (177) | | (177) | (103) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **4,268** | **4,255** | **(13)** | **0** | **(13)** | **(100)** |

## Amgylchedd

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** y rhagolygon incwm wedi gwella unwaith eto eleni yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol, gwasanaethau proffesiynol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** diffyg incwm parcio o £270k a gorwariant ar gostau trydan sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau staff ac hyfforddi.

**Cludiant Integredig -** gorwariant o £366k ar gytundebau bysus cyhoeddus, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddapariaeth Cludiant yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

| **CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Ymgynghoriaeth** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (552) | (588) | (36) | | (36) | (14) |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 607 | 607 | 0 | | 0 | (92) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (46) | (40) | 6 | | 6 | (3) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **9** | **(21)** | **(30)** | **0** | **(30)** | **(100)** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg -** swyddi gwag a rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaeth Adeiladu -** tanwariant staff sydd yn arwain at ddiffyg cynhyrchu incwm.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 242 | 213 | (29) | | (29) | (49) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 3,270 | 6,480 | 3,210 | | 3,210 | 28 |
| Tai Sector Breifat | 446 | 421 | (25) | | (25) | (44) |
| Eraill | 436 | 361 | (75) | | (75) | (49) |
| | 4,152 | 7,262 | 3,110 | 0 | 3,110 | (65) |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 5,015 | 5,209 | 194 | | 194 | (142) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (20) | (12) | 8 | | 8 | (24) |
| | 4,995 | 5,197 | 202 | 0 | 202 | (166) |
| Addasiad Cau Cyfrifon | | | | | 0 | 180 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **9,389** | **12,672** | **3,283** | **0** | **3,283** | **(100)** |

## Tai ac Eiddo

**Gwasanaethau Tai, Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Digartrefedd yn dwysau. Yn ystod 2021/22 bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am £2.9 miliwn o'r gwariant ychwanegol perthnasol o £3.3 miliwn o gronfa caledi Covid. Ond, eleni dim ond £475k yw gwerth y grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost. Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gwelwyd cynnydd pellach yn y galw, ynghyd â chostau cyfartalog uwch gan fod landloriaid wedi cynnyddu prisiau a gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant net o £3.2m a adroddir ar Digartrefedd yn dilyn dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau adfer yn sgil covid y Cyngor i'r gwasanaeth.

**Gwasnaethau Tai, Tai Sector Breifat ac Eraill** - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Gwasanaethau Eiddo** - gorwariant yn deillio o gynnydd ym mhrisiau trydan ond sydd yn cael ei leihau gan swyddi gwag yn Eiddo. Cyfuniad o lai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau a diffyg incwm yn y maes Gofalu, Arlwyo a Glanhau.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Tai ac Eiddo o ganlyniad i newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd, gyda'r oblygiadau yn golygu gorwariant net o £3.2 miliwn eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| Adrannau Canolog | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,163 | 2,136 | (27) | | (27) | (33) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 7,449 | 7,428 | (21) | | (21) | (96) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,155 | 8,113 | (42) | | (42) | (63) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **17,767** | **17,677** | **(90)** | **0** | **(90)** | **(192)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** effaith swyddi gwag y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol am ran o'r flwyddyn ynghyd â throsiant staff a swyddi gwag yn Cyfreithiol, sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys tanwariant ar swyddi gwag ynghyd ag incwm am weinyddu grantiau amrywiol a derbyniad incwm uwch mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau ar draws yr adran yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol. Y tanwariant a adroddir yn yn cael ei leihau gan ragolygon o ddiffyg incwm o £66k gan yr Argraffdy.

| **CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Amcan Cyllideb 2022/23 | Amcan Sefyllfa 2022/23 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (962) | | (962) | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (913) | | (913) | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (310) | | (310) | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (1,145) | | (1,145) | 0 |
| Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb | * | * | 3,544 | | 3,544 | 0 |
| Darpariaeth wrth gefn ar gyfer Chwyddiant | * | * | (1,637) | | (1,637) | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | (1,200) | | (1,200) | 0 |
| Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid | * | * | 474 | | 474 | 0 |
| Eraill | * | * | (334) | | (334) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(2,483)** | **0** | **(2,483)** | **0** |
| *Defnydd o Gronfeydd / Balansau Cyffredinol* | | | | **(7,054)** | | |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - hyd at ddiwedd Awst, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 139 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23. Mae £6m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2022/23 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca yn allanol sydd o ganlyniad yn creu tanwariant.

**Derbyniad Llog** - y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu y bydd oblygiadau'r cynnydd cyflogau a argymhellir yn genedlaethol yn £3.5m, sydd yn sylweddol uwch na'r 4% a gynghorwyd i Gynghorau ei gyllidebu wrth sefydlu'r gyllideb am 2022/23 a ystyrid i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Darpariaeth wrth gefn ar gyfer Chwyddiant** - darparwyd cyllideb i gyllido pwysau ychwanegol posib yn deillio o chwyddiant.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu yn briodol.

**Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid** - y gofyn uwchlaw £1.4m a ddarparwyd yn y gyllideb am Covid yn £474k, sydd i'w gyllido o gronfa.

**Eraill** - dychwelyd bidiau a phwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd.

**Defnydd o Gronfeydd / Balansau Cyffredinol** - er mwyn cyllido sefyllfa ariannol y Cyngor, erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd angen defnyddio £7.1m o gronfeydd y Cyngor. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bod angen defnyddio £1.5m o Falansau Ysgolion ar gyfer gorwariant trydan yn yr ysgolion, £4.5 o'r Gronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid a'r gweddill sef £1.1m o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyn nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
- yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
- yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor
- yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.